BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS WRECSAM

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2019
Neuadd y Dref Wrecsam, Siambr y Cyngor

Lyndsey Rawlinson	Cyfoeth Naturiol Cymru (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Hugh Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Dirprwy Gadeirydd)
Ian Bancroft	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gary Doherty	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Sue Price	Coleg Cambria
Bob Baines	Iechyd Cyhoeddus Cymru (ar ran Angela Tinkler)
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Mark Pierce	Heddlu Gogledd Cymru
Nina Ruddle	Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
John Gallanders	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
Lynne Moore	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Jono Clarke	Gwasanaeth Prawf Cymru
Claire Mooney	Gwasanaeth Prawf Cymru
Mike Whitley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ian Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Donna Dickenson	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Francine Salem	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Sally Holland	Comisiynydd Plant Cymru
Kath Mattingly	Swyddfa CP Cymru
Siwan Dafydd	Swyddfa CP Cymru
Jessie Hack	Senedd yr Ifanc
Alexander Pengelly	Senedd yr Ifanc
Jade Griffith	Senedd yr Ifanc
Stephen Lockhart	Senedd yr Ifanc
Toby Jones	Senedd yr Ifanc
Andrew Roberts	Senedd yr Ifanc
Emilia Mandyna	Senedd yr Ifanc
Cameron Millington	Senedd yr Ifanc

Anna-Louise Edwards	Cyngor Gofal Pobl Ifanc Wrecsam
Caroline Bennett	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
C Tricia Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cefnogaeth Prosiect:

Michael Cantwell	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Sandra Williams	Cyfieithydd

Ymddiheuriadau

Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Angela Tinkler	Iechyd Cyhoeddus Cymru

1	**Croeso**	
	Bu i Lyndsey groesawu Sally Holland a'i thîm, ynghyd ag aelodau Senedd yr Ifanc Wrecsam, i'r cyfarfod. Diolchodd iddynt am yr holl waith y buont yn ei wneud i baratoi gweithdy er mwyn galluogi partneriaid BGC i gychwyn ystyried sut y gallent ymwreiddio hawliau plant o fewn eu sefydliad.	
	Strategol	
2	**Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru**	
	Mae Sally a'i thîm wedi bod yn gweithio'n agos â Senedd yr Ifanc Wrecsam i ddatblygu gweithdy ar y cyd ar gyfer BGC Wrecsam. Roedd gan hwn nifer o nodau: • Dysgu mwy am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a sut y gall gysylltu â gwaith y BGC • Deall rôl Comisiynydd Plant Cymru - Sally Holland • Egluro ymagwedd Y Ffordd Gywir a chael y partneriaid i fyfyrio ar yr hyn y maent yn ei wneud i wella canlyniadau o safbwynt plant a phobl ifanc • Gweld lle mae'r BGC eisoes yn cefnogi plant a phobl ifanc i gael gafael ar eu hawliau a thrafod ffyrdd o ddatblygu'r gwaith • Pennu camau gweithredu i'w symud ymlaen fel BGC a datblygu ymrwymiad i'r ymagwedd Mae cyflwyniad y gweithdy ar gael ar y cyd â'r cofnodion hyn.	
	Mae tîm prosiect yn CBSW wrthi'n gweithio ar sut i ymwreiddio ymagwedd hawliau plant ac yn rhoi cynnig ar becyn gwaith Y Ffordd Gywir. Bydd yn rhoi gwybod am y cynnydd a wnaeth yng nghyfarfod mis Medi'r BGC.	MC
3	**Senedd yr Ifanc**	
	Gan ddatblygu ar waith cynharach a helpodd i lunio'r cynllun lles, cyflwynodd aelodau Senedd yr Ifanc Wrecsam ganfyddiadau eu hymgynghoriad diweddar, oedd yn archwilio safbwyntiau a barn am gwsg, bwyd a rheoli pwysau a datblygu sgiliau byw.	

	Mae cyflwyniad y gweithdy ar gael ar y cyd â'r cofnodion hyn.	
	Ymrwymodd y BGC hefyd i gynnal sgwrs â Senedd yr Ifanc ynglŷn â'r ffordd orau i blant a phobl ifanc lunio, herio a chyfrannu i'r modd y cyflawnir y cynllun lles yn Wrecsam, a bydd Lyndsey yn mynychu un o gyfarfodydd y Senedd yn y dyfodol.	LR/ MC
	Ymrwymodd BGC Wrecsam i gymryd camau i ddatblygu dealltwriaeth ymarferol o sut y gellid ymwreiddio hawliau plant o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus, a hefyd o fewn y BGC fel corff strategol: • Hirdymor – sut y gall y BGC ddatblygu gweithio rhwng cenedlaethau? • Atal – beth fydd y BGC yn ei wneud i ddatblygu ymagwedd hawliau plant? • Cydweithio – sut y gall partneriaid ddatblygu gweithio ar y cyd? • Cynnwys – sut y gall y BGC gydweithio â phlant a phobl ifanc i lunio cyflawniad y cynllun lles? • Integreiddio – beth fydd partneriaid yn ei wneud i sefydlu hawliau plant? •	PAWB
	Diolchodd Lyndsey i Sally Holland a'i thîm ac i Senedd yr Ifanc am gyflwyno gweithdy mor hynaws a bywiog, ac ar ran y BGC, ymrwymodd i barhau i weithio gyda'r ddau i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant ledled Wrecsam.	
	Gweithredol	
4	**Eitemau ar gyfer cyfarfod y BGC ym mis Mehefin 2019**	
	Daeth Lyndsey â'r cyfarfod i ben gyda thair eitem fusnes i'w gweithredu:	
	Mae angen adfywio Cylch Gorchwyl y BGC ers cytuno arno yn 2016. Bydd y TA yn anfon neges e-bost i alluogi aelodau'r BGC i wneud sylwadau, er mwyn gallu trafod y diweddariad yn y cyfarfod nesaf.	PAWB / MC
	Bydd y TA nawr yn cydweithio ag aelodau'r BGC i gynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar flwyddyn gyntaf cynllun lles Wrecsam. Bydd y TA yn anfon neges e-bost i alluogi aelodau'r BGC i gyfrannu, er mwyn gallu cymeradwyo'r adroddiad yn y cyfarfod nesaf.	PAWB /MC
	Gofynnwyd i aelodau'r BGC ystyried pa rai o'r amcanion sy'n weddill fydd yn cael eu dwyn ymlaen fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer 2019/2020, ac yna gellir cytuno ar hyn yn y cyfarfod nesaf.	PAWB
5	**Dyddiad y cyfarfod nesaf**	
	10am, 13 Mehefin 2019 Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam.	

Dyddiadau Cyfarfodydd 2019:

12.09.19	10am tan 12pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans Wrecsam
12.12.19	10am tan 12pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans Wrecsam

Anfonwch neges e-bost i sustainability@wrexham.gov.uk os hoffech chi ragor o wybodaeth am y cofnodion hyn.